Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol

## Briff Ymchwil

Mehefin 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6316**
E-bost: **Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol
## Briff Ymchwil

Mehefin 2019


**Awduron:**
Holly Tipper and Katy Orford



Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Holly Tipper gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a'i gwnaeth yn bosibl cwblhau'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.



**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol wedi cael llawer o sylw cyhoeddus a gwleidyddol ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael ei ddwyn ymlaen o fewn y 12 mis nesaf. Cyhoeddwyd y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) [Drafft] ar 1 Hydref 2018 a'i nod gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, a hynny ar sail foesegol.

Cyhoeddwyd y papur briffio hwn cyn cyflwyno'r Bil ac mae'n canolbwyntio ar y cefndir polisi a'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru a gweddill y DU.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........................................................................................ 1**

Y sefyllfa bresennol ........................................................................................ 1

Galwadau am waharddiad ........................................................................................ 3

Maint y broblem ........................................................................................ 4

Adolygiadau o les anifeiliaid mewn syrcasau ........................................................................................ 4

Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs) ........................................................................................ 5

**Y Ddeddfwriaeth Bresennol ........................................................................................ 7**

Cymru ........................................................................................ 7

Datblygiadau ledled y DU ac Ewrop ehangach ........................................................................................ 7

**3 Y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) [Drafft] ........................................................................................ 12**

Trosolwg o'r cynigion yn y Bil ........................................................................................ 12

Ymgynghoriad ar gynigion y Bil drafft ........................................................................................ 13

Pryderon penodol ynghylch cynigion y Bil drafft ........................................................................................ 14

Statws presennol y Bil ........................................................................................ 17

**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

# 1. Y cefndir

## Y sefyllfa bresennol

Mae'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol wedi cael llawer o sylw cyhoeddus a gwleidyddol ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru. Mae galwadau am waharddiad ar yr arfer hwn wedi cael eu hystyried gan Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad ac wedi arwain at weithredu arfaethedig gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Chwefror 2018, **cyhoeddodd** Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, Lesley Griffiths AC, ei bod yn 'chwilio am gyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru'. Daeth y cyhoeddiad hwn yn dilyn **ymgynghoriad** ar gynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid (MAEs) (Gorffennaf 2017) a oedd yn cynnwys y cwestiwn ynglŷn â chyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Roedd cefnogaeth aruthrol i waharddiad ymhlith yr ymatebwyr. Ym mis Gorffennaf 2018, **cyhoeddodd** Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Carwyn Jones AC, y byddai Bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn dod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn y 12 mis nesaf.

Ym mis Hydref 2018, **ymgynghorodd** Llywodraeth Cymru ar y **Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) [Drafft]** (PDF, 86KB). Nod y Bil yw gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru am *resymau moesegol*. Mae hyn yn bosibl ers i *Ddeddf Cymru 2017* ddod i rym. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad (gweler Adran 3 am ragor o wybodaeth). Mae Blwch 1 yn rhoi manylion llinell amser digwyddiadau perthnasol.

**Blwch 1: Llinell amser digwyddiadau sy'n ymwneud â gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru**

**Hydref 2015** – **Yr RSPCA yn cyflwyno deiseb** gyda > 7,000 o lofnodion yn galw am waharddiad ar anifeiliaid gwyllt ym **mhob** syrcas.

**Rhagfyr 2015** - Llywodraeth Cymru **yn cyhoeddi adolygiad annibynnol** (adolygiad 'Harris') o les anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a syrcasau nad ydynt yn rhai teithiol.

**Mawrth 2016** - Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y pryd, Rebecca Evans AC, yn cyhoeddi **datganiad ysgrifenedig** ar ôl cael adroddiad drafft adolygiad Harris. Gofynnir i'r Prif Swyddog Milfeddygol ystyried yr adroddiad terfynol a gofyn am gyngor gan **Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru** a grwpiau arbenigol eraill.

**Ebrill 2016** - Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Adolygiad Harris** sy'n darparu tystiolaeth wyddonol o les anifeiliaid mewn syrcasau teithiol. Mae'n dadlau na all anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn amgylcheddau teithiol gael eu diwallu i'r un graddau ag mewn amgylcheddau sefydlog.

**Rhagfyr 2016** - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, Lesley Griffiths AC, **yn datgan**, er bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun trwyddedu neu reoleiddio ar gyfer Arddangosfeydd Symudol o Anifeiliaid (MAEs), gan gynnwys syrcasau, nad yw hi 'wedi diystyru'r posibilrwydd o wahardd anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio mewn syrcasau yn y dyfodol yng Nghymru'.

**Gorffennaf 2017** - Llywodraeth Cymru **yn ymgynghori** ar gynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid a oedd yn cynnwys cwestiwn ynglŷn â gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

**Rhagfyr 2017** - Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid,** ac **yn datgan** ei bod yn rhoi gorchwyl i swyddogion ddatblygu cynllun trwyddedu ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, yn amodol ar ymgynghoriad yn 2018. Mae'n nodi bod cefnogaeth aruthrol ymhlith yr ymatebwyr i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

**Ionawr 2018** - Linda Joyce-Jones yn cyflwyno **Deiseb** i'r Cynulliad, gyda > 6,000 o lofnodion yn galw am wahardd anifeiliaid **gwyllt** ym **mhob** syrcas.

**Chwefror 2018** - Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, **yn cyhoeddi** ei bod yn archwilio opsiynau o ran gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru.

**Gorffennaf 2018** - Llywodraeth Cymru **yn datgan** y bydd yn cyflwyno Bil sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol dros y 12 mis nesaf.

**Hydref 2018** - Llywodraeth Cymru **yn ymgynghori** ar y ddeddfwriaeth arfaethedig i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.



**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

**Medi 2018** - Linda Joyce-Jones *et al.* yn cyflwyno **Deiseb** bellach yn galw am waharddiad ar ddefnyddio'r **pob** anifail mewn syrcasau a sioeau teithiol yng Nghymru. Mae'r ddeiseb yn dal i gasglu llofnodion.

**Ionawr 2019** - Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **crynodeb o'r ymatebion** i'r ymgynghoriad ynghylch cynigion i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

**Mawrth 2019** – Y Prif Swyddog Milfeddygol **yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru** gan ddweud bod y 'Bil Syrcas yn mynd rhagddo'n dda a dylai gael Cydsyniad Brenhinol yn 2020 yn unol â'r targed; ac mae gwaith yn parhau ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid'.

## Galwadau am waharddiad

Mae **aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector wedi mynegi** pryder am les rhai anifeiliaid sy'n cael eu cadw dan amodau syrcas deithiol. Mae pryderon yn cynnwys addasrwydd a maint llety dros dro, newidiadau mewn ymddygiad arferol, cyflawni 'ymddygiadau anarferol' ac effaith cael eu cludo'n aml. Yn ogystal â phroblem ganfyddedig sy'n ymwneud â'u lles, mae rhanddeiliaid wedi lleisio pryderon moesegol, gan gredu bod perfformiad 'annaturiol' anifeiliaid gwyllt i ddifyrru pobl, a'r amodau byw sy'n cyd-fynd â hyn, yn golygu ei fod yn 'gysyniad sydd wedi dyddio a'i fod yn annerbyniol yn foesegol'.

Canfu **ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2018** fod 97% o'r ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Roedd y lefel hon o gefnogaeth i waharddiad yn debyg i'r **ymatebion i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn Llywodraeth y DU yn 2009** (PDF, 105KB) ac y**mgynghoriad Llywodraeth yr Alban yn 2014** (y manylir arnynt yn ddiweddarach).

Mae tair deiseb yn galw am waharddiad wedi cael eu hystyried gan Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad:

- Cyflwynodd RSPCA Cymru **ddeiseb** ym mis Hydref 2015 gyda 7,700 o lofnodion, yn galw am waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt ym **mhob** syrcas yng Nghymru;
- Cyflwynodd Linda Joyce-Jones **ddeiseb** gyda 6,398 o lofnodion, hefyd yn galw am waharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt ym **mhob** syrcas yng Nghymru, a ystyriwyd gyntaf ym mis Ionawr 2018; ac

- Fe gyflwynodd Linda Joyce-Jones, Kirsty John a Jayne Dendle **ddeiseb** ym mis Medi 2018, yn galw am waharddiad ar ddefnyddio **pob** anifail mewn syrcasau a **sioeau** teithiol yng Nghymru. Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, mae'r ddeiseb hon wedi cael 660 o lofnodion ac mae'n dal ar agor.

Ym mis Ionawr 2018 canfu **Adolygiad gan Defra** fod syrcasau yn profi protestiadau yn erbyn eu defnydd o anifeiliaid yn rheolaidd wrth fynd ar daith.

Canfu **canlyniadau arolwg yr RSPCA** (2016) (Tabl 2 o'r adroddiad) fod 10 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi gorfodi gwaharddiadau ar ddefnyddio anifeiliaid mewn syrcasau i wahanol raddau.

## Maint y broblem

Ar hyn o bryd nid oes syrcasau Cymreig gydag anifeiliaid gwyllt, ond mae syrcasau o wledydd eraill yn ymweld, a gallant yn gyfreithlon ddefnyddio anifeiliaid gwyllt yn eu hactau.

Yn Lloegr (ond nid Cymru), mae ar syrcasau gydag anifeiliaid gwyllt angen trwydded dan ***Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012*** (gweler Adran 2 y papur briffio am fanylion pellach).

Ar hyn o bryd, mae dau syrcas wedi'u trwyddedu o dan reoliadau Lloegr i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt, ac mae'r ddau ohonynt yn ymweld â Chymru yn rheolaidd. Circus Mondao a Peter Jolly's Circus yw'r rhain. Ar ddiwedd 2017, nododd yr ***Adolygiad ar ôl Gweithredu o Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012*** gan Defra fod y ddwy drwydded yn cwmpasu cyfanswm o 19 o anifeiliaid gwyllt, gan cynnwys: chwe charw, pedwar sebra, tri chamel, tri racoon, llwynog, macaw, a sebu.

Mae hyn yn newid o'i gymharu â mis Tachwedd 2013, pan **gadarnhaodd** Llywodraeth y DU fod 28 o anifeiliaid trwyddedig gan gynnwys (ymhlith anifeiliaid eraill) chwe neidr, pedwar teigr a dau lew. Dim ond yn ddiweddar y mae cathod mawr wedi rhoi'r gorau i ymweld â Chymru, yn dilyn canslo **sioe llewod a theigrod Thomas Chipperfield** ym Mhorthcawl ym mis Hydref 2015.

## Adolygiadau o les anifeiliaid mewn syrcasau

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiadau o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, gyda gwahanol gwmpasau a chanlyniadau.



**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

Cwblhawyd **'Adroddiad Radford' (2007)** (PDF, 251KB) gan y Gweithgor Syrcasau (cymysgedd o gynrychiolwyr o fyd diwydiant ac o faes lles anifeiliaid). Fe'i sefydlwyd i hysbysu Llywodraeth y DU am unrhyw dystiolaeth wyddonol sy'n ymwneud â gwaharddiad posibl o dan y ***Bil Lles Anifeiliaid ar y pryd (Deddf 2006 erbyn hyn)***. Roedd yr adroddiad yn ystyried tystiolaeth a oedd yn ymwneud yn benodol ag anghenion trafnidiaeth a llety rhywogaethau annomestig. Er bod yr awduron wedi nodi bod y sefyllfa bresennol yn gweithredu yn groes i fuddiannau'r anifeiliaid, ni chafwyd digon o dystiolaeth bod anifeiliaid a gedwir mewn syrcasau teithiol yn well nac yn waeth eu byd na'r anifeiliaid mewn amgylcheddau sefydlog. Mae'r adroddiad yn nodi fel a ganlyn:

> ...in the absence of compelling scientific evidence, any attempt to ban the use of an animal would fall foul of the principle of proportionality. Accordingly, it is proposed that further primary legislation would be required to have any realistic prospect of achieving a lawful ban.

Nid oedd cylch gwaith Adroddiad Radford yn cynnwys ffactorau fel perfformio a hyfforddi, gan beri i'r awduron ddamcaniaethu a fyddai eu cynnwys wedi arwain at ganlyniad gwahanol ar gyfer lles anifeiliaid.

Mewn cyferbyniad â hyn, daeth **'Adolygiad Harris' (2016)**, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, i gasgliad gwahanol. Cafodd yr Athro Stephen Harris gomisiwn i adolygu effaith gyfunol pob agwedd ar ffordd o fyw syrcas deithiol (a sŵ teithol) ar les anifeiliaid gwyllt. Roedd yr adolygiad yn cwmpasu arferion o ran yr amgylchedd, teithio a rheoli. Canfu fod yr amgylcheddau rheoledig (y mae eu hangen ar gyfer cludadwyedd, rhwyddineb trafod, a chydymffurfiaeth yr anifeiliaid) yn arwain at gyfoethogi amgylcheddol 'cyfyngedig iawn neu nad yw'n bodoli'. Daw'r adolygiad i'r casgliad bod yr anifeiliaid yn yr amgylcheddau hyn:

> ...do not achieve their optimal welfare requirements, as set out under the *Animal Welfare Act 2006*, and the evidence would therefore support a ban on using wild animals in travelling circuses and mobile zoos on animal welfare grounds.

## Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs)

Mae Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs) hefyd wedi codi pryderon ynghylch lles anifeiliaid a phryderon moesegol ymhlith rhanddeiliaid am lawer o'r un rhesymau â syrcasau teithiol. Gall Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid arddangos anifeiliaid domestig ac egsotig, ac maent yn cynnwys arddangosfeydd o anifeiliaid anwes egsotig, arddangosfeydd hebogyddiaeth a heboca, digwyddiadau ceirw a syrcasau teithiol. Defnyddir Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid ar gyfer ymweliadau addysgol ag ysgolion, digwyddiadau thematig, partïon, priodasau ac achlysuron corfforaethol.

Fel gyda syrcasau teithiol, nid oes cynllun trwyddedu na chofrestru safonol ar gyfer pob Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid yng Nghymru ar hyn o bryd. Gall rhai gael eu cofrestru o dan ***Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925*** neu eu trwyddedu o dan ***Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976***, ond nid yw'n ofynnol cynnal archwiliadau rheolaidd o'r holl anifeiliaid gwyllt a gedwir.

Ym mis Gorffennaf 2017, fe **ymgynghorodd** Llywodraeth Cymru ar Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, gan ofyn am farn pobl ynglŷn â'r diffiniad arfaethedig o Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid: 'unigolion, grwpiau neu fentrau masnachol sy'n teithio i arddangos anifeiliaid domestig a/neu gwyllt, at ddiben adloniant, therapi, addysg a/neu bwrpas arall'. Roedd yn gofyn hefyd a fyddai cynllun trwyddedu neu gofrestru yn briodol ac yn gofyn am farn ynglŷn â'r canlynol:

- Eithriadau / gofynion ychwanegol ar gyfer rhywogaethau penodol, maint y casgliad a natur y gweithgarwch;
- Tystiolaeth o gyfraniad Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid at gadwraeth a / neu addysg; a
- Diogelu rhag trosglwyddo clefydau o anifeiliaid i bobl.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiwn ynglŷn â gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad.

Ers yr ymgynghoriad, mae **datganiad gan Lywodraeth Cymru** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019 yn nodi ei bod wedi cynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid i gasglu adborth ar y cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, a'i bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch hyn rywbryd yn 2019.



**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

# Y Ddeddfwriaeth Bresennol

## Cymru

Mae yna amrywiaeth o ddeddfau a rheoliadau sy'n berthnasol i syrcasau teithiol yng Nghymru, ond nid yw'r rhain yn ymwneud yn benodol â syrcasau ac nid ydynt yn gwahardd defnyddio anifeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

***Deddf Lles Anifeiliaid 2006*** – sy'n cwmpasu lles pob anifail asgwrn cefn. Mae anifeiliaid gwyllt wedi'u cynnwys dan **Adran 9** o dan Ddyletswydd Gofal person cyfrifol.

***Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007*** – sy'n rhoi ar waith **Reoliad (CE) 1/2005 gan y Cyngor** sy'n berthnasol i les anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo yn Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae adolygiad Harris yn nodi nad yw anifeiliaid mewn syrcasau teithiol o fewn cwmpas y Gorchymyn, ac eithrio mewn perthynas ag Erthygl 4 sy'n cynnwys darpariaethau sylfaenol ar amddiffyn anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Y rheswm dros hyn yw bod llety mewn syrcasau teithiol yn ymddangos fel pe bai'n llety parhaol ac nid yn llety teithiol dros dro.

***Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925*** – sy'n cynnwys darpariaethau sy'n nodi bod rhaid i syrcasau anifeiliaid gofrestru gydag awdurdodau lleol.

***Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Labordai, Syrcasau a Chwarantîn Adar) 2007*** - sy'n gweithredu **Rheoliad 1739/2005 y Comisiwn** ac yn nodi gofynion ar gyfer symud anifeiliaid syrcas rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE.

## Datblygiadau ledled y DU ac Ewrop ehangach

Mewn **papur polisi** a oedd yn cyd-fynd â'r Bil drafft Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (2013), gofynnodd Llywodraeth y DU am farn y Gweinyddiaethau Datganoledig ynglŷn â'r dewis bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar eu rhan. Ymateb cyffredinol yr holl Weinyddiaethau Datganoledig oedd y byddai angen amser arnynt i ystyried a ddylid cyflwyno gwaharddiad cyn symud ymlaen. Fodd bynnag, ers hynny mae pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi bod yn datblygu eu mesurau eu hunain. Ym mis Chwefror 2016, ar yr adeg y comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Harris, dywedodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yng Nghymru, Rebecca Evans AC ar y pryd:

> Er gwaethaf trafodaethau ar lefel swyddogol a Gweinidogol, mae Llywodraeth y DU wedi methu'n gyson â gweithredu cynlluniau i weithredu gwaharddiad ar sail Cymru a Lloegr.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r sefyllfa bresennol ledled gwledydd y DU.

## Llywodraeth y DU

Ym mis Rhagfyr 2009, lansiodd Llywodraeth y DU **ymgynghoriad** (PDF, 105KB) ar ddiogelu lles anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, a gofynnodd i ymatebwyr ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio / gwahardd syrcasau.

O'r 10,576 o ymatebwyr, roedd 94.5% o'r farn mai gwaharddiad llwyr oedd yr opsiwn gorau.

Dewisodd Llywodraeth y DU geisio cyngor cyfreithiol ynghylch cyflwyno gwaharddiad am fod **gwrthwynebiad i waharddiad yn Awstria** wedi'i gyflwyno gerbron y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd y Gymdeithas Syrcasau Ewropeaidd yn dadlau bod y gwaharddiad yn Awstria yn groes i symudiad rhydd gwasanaethau yn yr UE, a'i fod yn gwahaniaethu yn erbyn syrcasau. Ar ôl dwyn achos yn erbyn Awstria am dorri rheolau, fe wnaeth y Comisiwn ollwng yr achos yn y pen draw ar y sail mai awdurdodau gwladol oedd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar faterion lles anifeiliaid. Pwysleisiodd fod gan bob Aelod-wladwriaeth yr hawl i gyfyngu ar symudiad gwasanaethau am resymau gor-redol sy'n ymwneud â budd cyffredinol, fel lles anifeiliaid.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol, **nododd** Llywodraeth y DU:

> The very strong legal advice that we have received, which is consistent with the case being prepared against Austria, is that a total ban on wild animals in circuses might well be seen as disproportionate action under the European Union services directive and under our own Human Rights Act 1998.

Nododd y byddai bwrw ymlaen â gwaharddiad wedi bod yn anghyfrifol yng ngoleuni'r cyngor cyfreithiol hwnnw. Yn lle hynny, ym mis Mai 2011 **cyhoeddodd** Llywodraeth y DU ei chynlluniau i gyflwyno cynllun trwyddedu o dan ***Deddf Lles Anifeiliaid 2006***.

Ym mis Mawrth 2012, lansiodd Llywodraeth y DU a **ymgynghoriad cyhoeddus** ar gyfundrefn drwyddedu. Roedd ei safbwynt ar waharddiad wedi newid a chadarnhaodd y byddai deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer gwaharddiad yn cael ei dwyn ymlaen cyn gynted ag y caniateid amser seneddol.



**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

Daeth ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012*** i rym ym mis Ionawr 2013. Mae 'darpariaethau machlud' yn y rheoliadau yn golygu y byddant yn dod i ben ym mis Ionawr 2020. Rhaid adolygu'r rheoliadau bum mlynedd ar ôl iddynt ddod i rym. Amcan y rheoliadau oedd:

> … introduce an effective licensing scheme to promote and ensure high standards of welfare for all wild animals used in travelling circuses in England…The Regulations require that all travelling circuses in England wishing to use wild animal acts must be licensed by Defra, and adhere to strict welfare standards.

Mae'r safonau lles hyn yn cynnwys: bod â chynlluniau gofal ar gyfer anifeiliaid; cadw cofnodion; hysbysu ynghylch amserlen y daith; archwiliadau milfeddygol rheolaidd; a gofynion lles penodol ar gyfer eu hyfforddiant, perfformiadau, trafnidiaeth a'r amgylchedd.

Yn dilyn casgliadau Adroddiad Radford nad oedd digon o dystiolaeth i gyflwyno gwaharddiad ar sail lles anifeiliaid, penderfynodd Llywodraeth y DU fwrw ymlaen â gwaharddiad am **resymau moesegol**. Cyflwynwyd **Bil drafft** ym mis Ebrill 2013 ar gyfer craffu cyn deddfu gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA). Fe wnaeth y Pwyllgor **awgrymu ystod o welliannau i'r Bil**, er enghraifft ychwanegu rhestr dros dro o anifeiliaid gwyllt, ac estyn pwerau arolygu i gwnstabliaid yr heddlu. Fe wnaeth Llywodraeth y DU **wrthod** yr argymhellion hyn. Ni fwriwyd ymlaen â'r Bil.

Ym mis Chwefror 2016, **nododd** Llywodraeth y DU unwaith eto y byddai gwaharddiad yn cael ei gyflwyno pan ganiateid amser seneddol. Cyhoeddodd Defra yr ***Adolygiad Ar Ôl Gweithredu o Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012*** ym mis Ionawr 2018, gan gadarnhau y bydd gwaharddiad yn dod i rym cyn mis Ionawr 2020 yn Lloegr.

Ers 2016 bu dau Fil Aelod Preifat (**2016-17** a **2017-19**) a oedd yn amcanu at wahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau (nad ydynt wedi mynd drwy'r Senedd).

Cyflwynodd Llywodraeth y DU '***Fil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) 2017-19*** ar 30 Ebrill 2019. Mae'r Bil wedi cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, a chynhaliwyd y cyfnod adrodd ar 4 Mehefin 2019.

Mae ***Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau (Rhif 2) 2017-19*** yn nodi'r trosedd fel a ganlyn:

> Prohibition on use of wild animals in travelling circuses in England
>
> (1) A circus operator may not use a wild animal in a travelling circus in England.
>
> (2) For the purposes of this section, a circus operator uses a wild animal in a travelling circus if the animal performs or is exhibited as part of the circus.
>
> (3) A circus operator who contravenes subsection (1) is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine.
>
> Yn y Bil hwn, ystyrir bod anifail yn 'anifail gwyllt' os nad yw wedi ei ddomestigeiddio'n gyffredin ym **Mhrydain Fawr**. Nid yw pwerau arolygu wedi'u hestyn i gwnstabliaid.

## Llywodraeth yr Alban

Ym mis Mai 2017, yr Alban oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd syrcasau anifeiliaid gwyllt teithiol; y **Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban).** Fe'i cyflwynwyd yn dilyn **ymgynghoriad cyhoeddus** yn 2014 a ganfu fod 98% o ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt ar gyfer perfformio mewn syrcasau teithiol. Canfu'r ymgynghoriad hefyd fod 96.4% o'r ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt i'w harddangos (heb berfformio) mewn syrcasau teithiol yn yr Alban. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018.

Mae ***Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018*** yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr ddefnyddio, neu achosi neu ganiatáu i berson arall ddefnyddio, anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Dim ond os caiff anifail ei gludo o un lle i'r llall a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol y mae'r trosedd yn berthnasol. Fodd bynnag, nid oes angen i anifail fod yn teithio ar y pryd er mwyn i'r trosedd fod yn berthnasol, ac nid oes ots a yw'r anifail yn cael ei gludo gyda'r syrcas deithiol ynteu fel rhan ohoni.

Yn y Ddeddf hon, mae'r term 'yn cael ei ddefnyddio' ('used') yn ymwneud ag anifeiliaid sy'n perfformio, sy'n cael eu dangos ('displayed') neu eu harddangos ('exhibited). Mae 'anifail gwyllt' yn golygu unrhyw anifail, ac eithrio'r rhai sydd wedi'u domestigeiddio yn **Ynysoedd Prydain**. Rhoddir grym gorfodi i arolygwyr a chwnstabliaid. Mae gan Weinidogion y pŵer i nodi'r hyn a ddosberthir fel anifail gwyllt neu syrcas deithiol trwy Reoliadau.





## Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Nid oes Cynulliad yn eistedd yng Ngogledd Iwerddon ers mis Mawrth 2017, felly ni ellir pasio deddfwriaeth sylfaenol trwy Gynulliad Gogledd Iwerddon ar adeg ysgrifennu'r papur hwn. Nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi gwneud unrhyw ymrwymiadau pendant i gyflwyno gwaharddiad, ond mae **wedi datgan** ei fod yn ymchwilio i ddull dros yr ynys gyfan, a fyddai'n cael ei roi ar waith trwy god ymarfer.

## Llywodraeth Iwerddon

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynodd Gweriniaeth Iwerddon y ***Rheoliadau Syrcasau (Gwahardd Defnyddio Anifeiliaid Gwyllt) 2017***, o dan ***Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 2013,*** sy'n gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

## Aelod-wladwriaethau eraill yr UE

Mae nifer o Aelod-wladwriaethau'r UE yn rheoleiddio'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau trwy amrywiaeth o gyfreithiau moesegol a chyfreithiau lles anifeiliaid. Er enghraifft, canfu **adroddiad ar Anifeiliaid Gwyllt yn Syrcasau'r UE** gan yr Euro Group for Animals fod Archddyfarniad y Llywodraeth 222/2007 (VIII.29) yn Hwngari yn nodi na ellir cadw nac arddangos yr un anifail gwyllt mewn carfan syrcas, am resymau amddiffyn anifeiliaid a chadwraeth bywyd gwyllt. Yn ôl adroddiad yr Euro Group for Animals, o ran y sefyllfa ym mis Mehefin 2017, roedd 11 o Aelod-wladwriaethau'r UE wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau'r UE gyfreithiau penodol ar gyfer amddiffyn anifeiliaid mewn syrcasau; fel rheol maent wedi'u cynnwys mewn Deddfau eraill sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid ac amddiffyn anifeiliaid. Er enghraifft, mae gan Wlad Groeg Erthyglau yng Nghyfraith Rhif 4039, 2012, sy'n golygu na ellir defnyddio unrhyw anifail mewn unrhyw fath o sioe, digwyddiad na gweithgaredd adloniant. Fel yng Nghymru a Lloegr, mae llawer o ardaloedd lleol yn Aelod-wladwriaethau'r UE wedi cymryd eu camau eu hunain i wahardd yr arfer.

Mae **Adolygiad Harris** (a oedd yn gyfoes yn 2016) ac **adroddiad yr Euro Group for Animals ar Anifeiliaid Gwyllt yn Syrcasau'r UE** (PDF, 769KB) (a oedd yn gyfoes yn 2017), yn rhoi trosolygon da o'r ddeddfwriaeth yn yr UE sy'n cwmpasu anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

# 3 Y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) [Drafft]

## Trosolwg o'r cynigion yn y Bil

Cyhoeddwyd y ***Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) [Drafft]*** ar 1 Hydref 2018. Os caiff ei ddeddfu fel y mae wedi'i ddrafftio, bydd yn cyflwyno gwaharddiad am resymau moesegol. Mae'n nodi fel a ganlyn:

> Mae person sy'n weithredwr syrcas deithiol yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol yng Nghymru, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.

Ceir eglurhad o'r derminoleg a ddefnyddir yn y Bil drafft ym Mlwch 2. Mae'r Bil drafft yn cynnig dirwyo troseddwyr a gafwyd yn euog. Mae'n nodi pwerau gorfodi sydd gan arolygwyr i fynd i mewn i unrhyw fangre, ac eithrio anheddau, trwy brofi pwy ydynt, neu anheddau trwy ddangos gwarant, i gwblhau arolygiad. Mae gan yr arolygydd bwerau i atafaelu unrhyw beth, ac eithrio anifail, y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth o drosedd a, gyda chwnstabl yn bresennol, i stopio a chwilio cerbydau. Mae'r Bil drafft yn cynnig y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau, er enghraifft, i bennu'r hyn a ystyrir yn anifail gwyllt, neu a ystyrir yn syrcas deithiol. Mae hyn yn wahanol i Fil arfaethedig Llywodraeth y DU, lle na cheir diffiniad o syrcas deithiol.

**Blwch 2: Terminoleg a Ddefnyddir yn y Bil Drafft**

**"Defnydd"** Mae anifail gwyllt yn cael ei 'ddefnyddio' os yw'r anifail yn perfformio neu yn cael ei arddangos.

**"Gweithredwr"** Perchennog y syrcas deithiol, person ac eithrio'r perchennog sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol, neu os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

**"Anifeiliaid"** Yr un ystyr ag a roddir i "animal" gan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*.

**"Anifail gwyllt"** Anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn Ynysoedd Prydain. Caiff anifail ei ddomestigeiddio os yw ymddygiad, cylch bywyd neu ffisioleg anifeiliaid o'r math hwnnw wedi eu newid o ganlyniad i'r ffaith bod bridio neu amodau byw cenedlaethau lluosog o anifeiliaid o'r math hwnnw wedi bod o dan reolaeth ddynol. Gall anifeiliaid gwyllt gael eu nodi trwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru hefyd.

**"Syrcas deithiol"** Syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny, gan gynnwys y rhai lle mae cyfnodau pan nad ydynt yn teithio. Nid yw hyn yn cynnwys syrcas sy'n teithio er mwyn adleoli i safle sefydlog newydd. Gall rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ddiwygio'r hyn a ystyrir ac nas ystyrir yn syrcas deithiol.

**"Pŵer mynediad"** Caniatáu i arolygydd fynd i mewn i fangre heblaw am anheddau trwy brofi pwy ydyw, neu i fynd i mewn i anheddau gyda gwarant.

**"Arolygydd"** Person a benodir gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu gan Weinidogion Cymru.

## Ymgynghoriad ar gynigion y Bil drafft

Rhwng 1 Hydref a 28 Tachwedd 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ei *Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithio (Cymru) [Drafft]*** am gyfnod o wyth wythnos. Mynegodd Llywodraeth Cymru ddymuniad i glywed barn pobl ifanc a phlant, gan nodi:

> Nid wyf yn credu y dylai anifeiliaid gael eu hystyried yn wrthrychau neu fel pethau i'n difyrru, yn hytrach, maent yn fodau all deimlo gyda'u hanghenion eu hunain. Rwyf am i blant a phobl ifanc yng Nghymru barchu ac ymddwyn yn gyfrifol tuag at anifeiliaid...

Mae'r **crynodeb o'r ymatebion** yn nodi cylch gwaith y cwestiynau, gan egluro fel a ganlyn:

> Ni ofynnwyd a ddylid gwahardd defnyddio pob anifail mewn syrcas na chwaith a ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn mathau eraill o adloniant.

Gellir gweld trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym Mlwch 3.

**Blwch 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad Bil Arfaethedig**

Mae **97%** yn cefnogi'r cynnig i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

Mae **97%** yn cytuno y bydd y gwaharddiad yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau pobl ifanc tuag at anifeiliaid.

Mae **60%** yn meddwl y bydd y gwaharddiad yn effeithio ar y diwydiant syrcas; mae'r rhan fwyaf yn meddwl y bydd yr effaith yn un gadarnhaol.

Mae **88%** yn cytuno â'r trosedd arfaethedig.

Mae **90%** yn cytuno y dylai'r trosedd fod yn berthnasol i'r gweithredwr.

Mae **90%** yn cytuno â'r diffiniad o 'gweithredwr'.

Mae **83%** yn cytuno â'r diffiniad o 'anifail gwyllt'.

Mae **91%** yn cytuno â'r diffiniad o 'syrcas deithiol'.

Mae **57%** yn cytuno y dylai fod gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau ar yr hyn sydd ac nad yw yn anifail gwyllt.

Mae **78%** yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru fod â phwerau i wneud rheoliadau ar yr hyn sydd i'w ystyried ac nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol.

Mae **78%** yn cytuno â'r darpariaethau gorfodi.

**Mae bron pob ymatebydd** yn meddwl na fydd y gwaharddiad yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg.

## Pryderon penodol ynghylch cynigion y Bil drafft

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r angen am waharddiad, roedd pryderon ynghylch geiriad, canlyniadau anfwriadol a statws moesegol y Bil drafft.

### Pryderon moesegol

Dywedodd y rhai a oedd o blaid y gwaharddiad y bydd yn addysgu plant i barchu anifeiliaid fel bodau ymdeimladol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod syrcasau anifeiliaid gwyllt yn 'dadsensiteiddio' plant, gydag RSPCA Cymru yn honni nad yw'r 'triciau amhriodol' yn addysgu nac yn meithrin parch. Mae'r rhai sy'n gwrthwynebu'r gwaharddiad yn credu nad yw'r ymddygiadau wrth hyfforddi yn wahanol i'r hyn y byddai'r anifail yn cyfranogi ynddo yn y gwyllt. Maent yn nodi bod caniatáu i blant ac oedolion ddysgu am yr anifeiliaid yn cynyddu ymwybyddiaeth o ymdrechion cadwraeth eu cymheiriaid yn y gwyllt.

### Pryderon ynghylch diffiniadau a chwmpas y Bil drafft

**Cwmpas y Bil drafft**

Yr ymatebion mwyaf rhanedig oedd y rhai a oedd yn ymwneud â geiriad y Bil drafft. Roedd llawer yn cytuno â'r trosedd cyffredinol ac yn gobeithio y byddai cosbau llym yn effeithiol. Fodd bynnag, amlygwyd fod ffocws y Bil drafft yn gulach na ffocws Rheoliadau 2012 yn Lloegr. Nid yw'r trosedd a nodir yn y Bil ond yn ymwneud ag anifeiliaid gwyllt sy'n perfformio neu'n cael eu harddangos, yn wahanol i Reoliadau 2012 yn Lloegr sy'n berthnasol i bob anifail gwyllt.



**Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol:** Briff Ymchwil

Galwodd llawer o ymatebwyr am waharddiad ar ddefnyddio pob anifail, gan awgrymu y byddai'r pryderon ynghylch lles anifeiliaid gwyllt dan yr amodau hyn yn berthnasol i'r anifeiliaid domestig. Yn yr un modd, roedd rhai yn dadlau, os yw'r gwaharddiad 'am resymau moesegol', y dylai'r rhain fod yn berthnasol i bob anifail.

Awgrymodd rhai y dylai'r gwaharddiad gwmpasu syrcasau sefydlog a theithiol.

Dywedodd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r trosedd nad oedd hawl gan bobl i roi gorchmynion i berchnogion mewn perthynas â'u hanifeiliaid, a bod eu gwybodaeth arbenigol o gydweithio'n agos gyda hwy a'r rheoliadau presennol yn ddigonol. Credai eraill fod y Bil drafft yn gwahaniaethu yn erbyn syrcasau gan nodi diwydiannau eraill fel ceffylau rasio ac asynnod ar y traeth.

**Diffiniad o 'gweithredwr'**

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth â'r disgrifiad o'r 'gweithredwr' a'r cynnig i gymhwyso'r trosedd iddo. Awgrymodd rhai y dylai'r trosedd fod yn berthnasol i'r person sy'n berchen ar yr anifail, yn ei hyfforddi, neu'n ei ddefnyddio yn ogystal â gweithredwr y syrcas. Roedd ar eraill eisiau mwy o eglurder ynghylch beth yw gweithredwr; er enghraifft, a yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i reolwyr, meistri syrcas a pherchnogion syrcas?

**Diffiniad o 'anifail gwyllt'**

Roedd llawer hefyd yn cytuno â'r diffiniad o 'anifail gwyllt'. Fodd bynnag, galwodd rhai am gysoni'r diffiniad o 'anifail gwyllt' â'r diffiniad yn *Neddf Trwyddedu Sŵau 1981* i osgoi unrhyw ffyrdd ymwared ac anghysonderau (e.e. anifeiliaid yn cael eu hystyried yn rhai gwyllt mewn sŵ ac yn rhai domestig mewn syrcas). Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai syrcasau honni bod eu hanifeiliaid wedi'u domestigeiddio neu eu bridio mewn caethiwed, gydag RSPCA Cymru yn awgrymu y dylid dileu'r adran yn y diffiniad ar anifeiliaid domestig (gweler Blwch 2), gan nodi y gall hyn fod yn agored i'w ddehongli.

**Diffiniad o 'syrcas deithiol'**

O ran y diffiniad o 'syrcas deithiol', roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei fod yn rhy amwys. Roedd pryderon y gallai syrcasau teithiol ail-frandio eu hunain fel Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid neu honni nad ydynt yn teithio. Galwodd rhai am amserlenni penodol ar gyfer symud i ddiffinio syrcas fel un deithiol neu beidio. Teimlai rhai ei bod yn 'amhosibl' diffinio beth yw syrcas.

**Pwerau Gweinidogion**

Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn i ymatebwyr ystyried pŵer Gweinidogion i bennu a diwygio rhai o'r diffiniadau. Y rhain oedd rhai o'r cwestiynau a achosodd y gwahaniaeth barn mwyaf. Roedd rhai o blaid rhestrau eithrio / cynnwys ar gyfer anifeiliaid gwyllt gan ddweud y bydd yn osgoi ffyrdd ymwared (e.e. trwy gynnwys anifeiliaid hybrid neu wedi'u lled-ddomestigeiddio). Credai eraill y gallai arwain at ffyrdd ymwared os nad yw'r rhestr yn un gynhwysfawr. Roedd pryder bod y geiriad yn aneglur, gyda gofidiau y gellid cynnwys anifeiliaid caeth yn y diwydiannau ffilm a theledu yn y rhestrau hyn.

Roedd y gwahaniaeth barn hwn hefyd yn wir yn achos rhestrau eithrio / cynnwys a fyddai'n diffinio'r 'math o ymgymeriad, perfformiad, neu adloniant'. Pe bai diwydiannau eraill yn cael eu rhestru, y tu hwnt i'r syrcas deithiol draddodiadol, teimlid fod cyfle i'r syrcasau ail-frandio eu hunain trwy chwilio am ffyrdd ymwared. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai y byddai rhestr gynhwysfawr yn atal hyn.

**Gorfodaeth**

Roedd ar rai ymatebwyr eisiau i orfodi gynnwys atafaelu anifeiliaid ac i bwerau gael eu hestyn i gwnstabliaid, ac nid i arolygwyr penodedig yn unig.

### Lles anifeiliaid y syrcas yn dilyn gwaharddiad

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r gwaharddiad, ond roedd rhai yn pryderu ynghylch dyfodol yr anifeiliaid yn dilyn y gwaharddiad. Roedd rhai yn poeni y gallai'r anifeiliaid deithio gyda'r syrcasau o hyd, er nad ydynt yn perfformio (gweler y diffiniad o 'Defnyddio' ym Mlwch 3). Mynegodd eraill y farn y gallai anifeiliaid nad ydynt yn cynnig unrhyw werth economaidd i'r syrcasau gael eu trosglwyddo i lochesi, a fyddai o bosibl yn rhoi bywyd gwaeth iddynt na'r amgylchedd syrcas deithiol.

Nododd gwrthwynebwyr y gwaharddiad fod syrcasau gydag anifeiliaid eisoes yn cael eu rheoleiddio'n dda, gyda safonau uchel o ran lles anifeiliaid, a'u bod yn darparu rhaglenni bridio diogel i'r anifeiliaid. Dywedodd eraill y gellid ystyried bod mynd ag anifail o'i amgylchedd arferol, oddi wrth ei geidwad / hyfforddwr, a'i gyfundrefn yn gyfystyr â 'gweithred greulon'.





### Pryderon y diwydiant

Roedd tua 60% o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r Bil drafft yn effeithio ar y diwydiant syrcas, mewn ffordd gadarnhaol yn bennaf. Credai llawer y byddai'n arwain at ostyngiad mewn costau gofal anifeiliaid ac amser a chostau cludiant, ymweliadau cynyddol gan y cyhoedd, a'r gallu i berfformio heb brotestwyr. Roedd rhai hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol i'r gymuned leol, gan y byddai angen gweithredoedd lleol i gymryd lle'r gweithredoedd anifeiliaid.

Fodd bynnag, roedd pryderon y gallai cymunedau lleol golli incwm rhent pe bai angen llai o dir i gadw anifeiliaid. Codwyd pryderon hefyd ynghylch gostyngiad mewn gwerthiant tocynnau, os nad oedd yr anifeiliaid yn bresennol. Teimlai eraill y byddai actau newydd yn fwy costus.

Soniodd rhai cynrychiolwyr o'r diwydiant ffilm a theledu am yr effaith y gallai gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol ei chael ar eu cynyrchiadau. Meddai Equity (undeb i berfformwyr creadigol):

> Other forms of entertainment such as film and television often use animals from circuses and their trainers for their productions and there is a risk that such animals and skilled workers would no longer be available to these industries.

## Statws presennol y Bil

Disgwylir i Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) Llywodraeth Cymru gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad maes o law. Mae datganiad ar y Bil i fod i gael ei wneud ar 9 Gorffennaf 2019.

Bydd Ymchwil y Senedd yn cynhyrchu crynodeb o'r Bil ar ddiwedd gwaith craffu Cyfnod 1 yn hydref 2019.